# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 26/10/2020 7:00yh – O Bell - COVID-19

William Penri Jones    Greta Hughes    Barbra Warren
John Brinley Jones    D Andrew Parry    William Roger Jones

**Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

Gofynnwyd i DAP gofnodi ac fe gytunwyd i bleidleisio drwy godi llaw a nodio pen.

1. **Ymddiheuriadau**
   Derbyniwyd ymddiheurad gan Thomas Victor Jones

2. **Cae Chwarae.** Y Cadeirydd yn croesawu Alaw Ceris i'r cyfarfod.

Rhoddir eitem yma yn gyntaf i'w drafod gan fod Alaw Ceris sef Cadeirydd y Pwyllgor cae Chwarae yn mynychu'r cyfarfod i holi am y cae chwarae.

Dywed Alaw fod 3 cyfarfod wedi bod hyd yma. Mae 10 aelod ar y Pwyllgor a chyfansoddiad wedi eu creu. Mae ganddynt gyfrif banc hefyd. Tudalen Facebook wedi ei greu i godi ymwybyddiaeth ac arian.

Mae £500 wedi ei gyfrannu yn barod. Mae'r pwyllgor wedi bod yn holi barn trigolion y pentref hefyd.
Alaw yn holi am rôl y Cyngor Plwyf. John yn cadarnhau mae'r Cyngor sydd efo'r cyfrifoldeb cyfreithiol.

Holwyd pam fod y cae chwarae wedi cau ac atebwyd achos Covid a difrod sydd wedi ei wneud yno o ran diogelwch.

Cytunwyd rhoi copi o'r map yn dangos lleoliad y wifren trydan Scottish Power i'r Pwyllgor.
Holwyd ynglŷn â'r gweithredoedd. Greta yn cynnig fod y Cyngor yn holi amdanynt i'r banc/cyfreithiwr. Hefyd, efallai fod Victor yn gwybod eu hanes a'u lleoliad.

Alaw yn holi pwy sy'n gyfrifol am gostau'r cae. John yn ateb mae'r Cyngor sy'n gyfrifol yn cynnwys ffens sy'n amgylchynu'r cae. John yn cynnig aros i'r 'firebreak' orffen ac wedyn cwrdd efo Alaw yn y cae i drafod trwsio'r ffens mor fuan â phosib.

Alaw yn holi pwy sy'n archwilio'r offer ayyb. Greta yn holi os yw Wicksteed yn archwilio ar gyfer y polisi yswirin. John am roi goriad cwpwrdd yn y neuadd I Andrew gael chwilio am y manylion i gysylltu efo Zurich a Wicksteed.

Alaw yn holi pwy sy'n torri'r gwellt. Penri yn cadarnhau mai Cyngor Gwynedd sy'n gwneud tair Gwaith y flwyddyn.

Dywedodd Alaw fod Pwyllgor Cae Chwarae angen llythyr ffurfiol gan Gyngor Plwyf fel tirfeddianwyr ein bod yn fodlon efo unrhyw gais a roddir gan y Pwyllgor er mwyn sicrhau grantiau/cefnogaeth ariannol gan fudiadau allanol. Cadarnhaodd John fod Cyngor Plwyf yn fodlon cyfrannu yn ariannol ac wedi gwneud sawl Gwaith yn y gorffennol.

Penri yn ymadael a'r cyfarfod am 1945

Alaw yn ymadael a'r cyfarfod am 2005.

3. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

John B Jones – Ceisiadau cynllunio Oriel Plas Glyn Y Weddw C20/0762/38/CR a C20/0780/38/DA

4. **Cofnodion Pwyllgor brys 12/10/2020**

Andrew yn cynnig derbyn y cofnodion. Barbara yn eilio. Pawb yn hapus.

5. **Unrhyw Fater Brys** **Dim**

6. **Seddi Gwag / Swydd Y Clerc**

John yn cadarnhau fod dau gais wedi ei dderbyn. John am yrru manylion i'r Cygnor ar ôl y dyddiad cau.

7. **Cwynion**

Mater o'r Cae chwarae/cebl trydan – John wedi gyrru gwybodaeth. Cwynion eraill - Greta yn dweud bod rhaid dilyn canllawiau cywir. Andrew yn cytuno a chynnig fod y Cyngor yn dilyn y canllawiau cywir i gam nesaf y broses. Wil yn eilio a phawb yn cytuno.

8. **Deddf Llywodraeth Leol 1972**

Greta yn tynnu sylw'r Cyngor fod y gyfraith ddim wedi ei ddilyn ynglŷn ag ymddiswyddiad Barbara. Hefyd fod y Cyngor ddim wedi dilyn canllawiau cywir trwy beidio rhoi cyfle teg i Claire am fod ymddiheuriadau yn bodoli yng nghofnodion cyfarfodydd y Cyngor. Dywedwyd fod y Clerc wedi cymeryd cyngor ac arweiniad gan Gyngor Gwynedd. Wil yn cynnig fod y Clerc Newydd yn ymchwilio i'r manylion a chysylltu efo Cyngor Gwynedd o safbwynt cyfreithiol. Rhaid wedyn i'r Cyngor plwyf dderbyn y casgliad a dilyn cyfarwyddiad y Cyngor Sir.

9. **Cae chwarae**- gweler pwynt 2.

10. **Y Fynwent** - Pozi wedi clirio ychydig.

11. **Rhestr eiddo** – dim

12. **Llwybrau** – dim

13. **Traethau & Toiledau** – dim

14. **Cofebion Mynydd Tir y Cwmwd** – dim

15. **Coronavirus covid-19** – dim

16. **Neuadd y Pentref** – dim

**Ceisiadau Cynllunio**

Ceisiadau Oriel Plas Glyn Y Weddw C20/0762/38/CR a C20/0780/38/DA – dim gwrthwynebiad.

**Unrhyw fater arall.**

John yn dweud fod cyfri'r Cyngor efo balans o £26776.51 ( 13/10/2020)
Taliad wedi ei dderbyn o ail-agor bedd yn ddiweddar.
Enw Iwan Hughes ac Evan Glyn Thomas nawr wedi eu tynnu oddi ar y Mandate Banc.
Pawb yn fodlon efo taliadau ar gyfer y Trydanwr, Zoom ac oriau Mis Hydref Y Clerc ac yn fodlon talu.
John am holi'r gyn-Glerc am fanylion yr 87 awr ychwanegol.

**Taliadau wedi eu cymeradwyo**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y Clerc -** Rhian Parry Mis Hydref – 21 awr | **£230.58** |
| **Ad-daliad Gweinyddol i'r Clerc** Zoom | **£143.88** |
| **North West Wales Electrical – Trydanwr am osod y diffib a cabinet Newydd** | **£96.00** |

**Taliadau wedi eu Derbyn**

| | |
|---|---|
| G D Roberts – trefnydd angladdau | **£140.00** |

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 2106.

**Gohebiaeth**

1. **Clerks & Council Direct –** Newyddlen
2. **Un Llais Cymru -** Video Gyfarfodydd StarLeaf
3. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru -** Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC
4. **Un Llais Cymru - C**yfarfodydd Rhanbarthol
5. **Bwrdd Iechyd Uned -** Man Anafiadau
6. **Ambiwlans Cymru** - Arolwg Gofalwyr
7. **un llais cymru** - Hyfforddiant sydd ar gael
8. **Age Cymru -** barn pobl hŷn am Covid 19
9. **Llywodraeth Cymru -** Colli cyllid incwm i Gynghorau Cymuned a Thref
10. **Cyngor Gwynedd** - Bwletin Gyda'n Gilydd Awst
11. **Age Cymru** - Dywedwch eich stori wrthym - Age Cymru yn ceisio safbwyntiau pobl hŷn am gyfnod clo Covid 19
12. **Un Llais Cymru** - Uchafbwyntiau Gwybodaeth
13. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - 10.08.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC
14. **AHNE Llyn -** Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE Llŷn
15. **Un Llais Cymru** - Arweiniadau Arfer Gorau
16. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** - 12.08.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC
17. **Bwletin Mantell** - Rhifyn 5 Gwynedd
18. **Cyngor Cymuned Llanllyfni** - Codi tal am fynediad i'r Wyddfa.
19. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru -** Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC
20. **Heddlu Dyfed Powys -** Gift Card Scam being targeted at Councillors
21. **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru -** Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC

**Clerc –** • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
**Cadeirydd – John Brinley Jones • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•**

22. **Mantell Gwynedd -** Grant Comic Relief Funding
23. **Un Llais Cymru** - atgoffa - hyfforddiant sydd ar gael
24. **Un Llais Cymru** - Gwe-rwydo - Arwyd ei fod yn sgam
25. **Llywodraeth Cymru -** cylchlythyr Datgarboneiddio mis Awst 2020.
26. **CLlLC -** Diweddariad am y coronafeirws gan
27. **AHNE Llyn – Llygaid Llyn 2020 –** Rhifyn 14
28. **Llywodraeth Cymru -** Cefnogaeth i'r Sector Treftadaeth yng Nghymru
29. **Un Llais Cymru -** Sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Medi
30. **CLlLC -** Diweddariad am y coronafeirws
31. **Un Llais Cymru -** Dyddiad cau Dydd Gwener 18 5pm - Colli cyllid incwm i Gynghorau Cymuned a Thref
32. **Prifysgol Bangor -** Y Gymraeg a'r Cyfnod Clo
33. **Bwrdd Iechyd** - Newyddlen Sgyrsiau Covid – Medi
34. **CLlLC -** Diweddariad am y coronafeirws
35. **Cyngor Tref Nefyn -** Datganiad i Gynghorau Tref a Phlwy
36. **Cyfoeth Naturiol Cymru -** Taclo Tipio Cymru
37. **Hunaniaith: Menter Iaith Gwynedd** - Y Gymraeg a Choronafeirws
38. **GIG** - Lansiad Ap Covid-19 y GIG 24 Medi
39. **GIG** - MenTaflenni / trydariadau cymorth Iechyd Meddwl
40. **CLlLC -** 21.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws

<u>**Cais am gyfraniad**</u>

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfon pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH –** Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog –** Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru –** Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie -** Cais am gyfraniad
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli –** Cais am gyfraniad
7. **Dawns i Bawb –** Cais am gyfraniad
8. **Theatr Bara Caws –** Cais am gyfraniad
9. **Eisteddfod yr Urdd –** Sir Ddimbych 2020
10. **Victim Support –** Cais am gyfraniad
11. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru -** Cais am gyfraniad
12. **Hosbis Dewi Sant –** Cais am gyfraniad
13. **Llangollen International Musical Eisteddfod –** Cais am gyfraniad
14. **Teenage Cancer Trust Cymru –** Cais am gyfraniad
15. **Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Alaw** – Cais am gyfraniad
16. **Ymchwil Canser Cymru** – Cais am gyfraniad
17. **Tenovus** - Helpu Cynnal Gobaith
18. **Tarian Cymru** - Cais am gyfraniad
19. **Ty Gobaith** – Cais am gyfraniad
20. **Calonau Cymru** - Cais am gyfraniad
21. **Marie Curie** – Cais am gyfraniad
22. **O Ddrws I Ddrws** - gario cleifion i apwyntiadau meddygfa, ysbyty, optegydd, chiropodydd ayyb

**Penderfynwyd gohirio at bwyllgor wyneb yn wyneb.**

**Clerc –** • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •
**Cadeirydd – John Brinley Jones** • jbjones@ppm-technology.com • 07775577869•